**SEWR-02-99 (min)**

# PWYLLGOR RHANBARTHOL DE DDWYRAIN CYMRU
# COFNODION Y CYFARFOD TEITHIOL GYDA'R PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

**Dyddiad:** Dydd Gwener 17 Medi 1999

**Amser:** 2.00pm i 5.00pm

**Lleoliad:** Swyddfeydd CBS Caerffili, Tredomen, Ystrad Mynach

**Presennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Carwyn Jones (Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru) | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Val Feld (Cadeirydd, Pwyllgor Datblygu Economaidd) | Dwyrain Abertawe |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Sue Essex | Gogledd Caerdydd |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |

| | |
|---|---|
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Huw Lewis | Merthyr Tydfil a Rhymni |
| David Rhys Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain Abertawe |

*Presennol*

| | |
|---|---|
| Peter Slater | Ysgrifenyddiaeth Tasglu Ewrop |
| Jeff Andrews | Ysgrifenyddiaeth Tasglu Ewrop |
| Hugh Rawlings | Ysgrifenyddiaeth Tasglu Ewrop |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc, Pwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru |
| Helen Usher | Clerc, Pwyllgor Datblygu Economaidd |

| | |
|---|---|
| Joanne Glenn | Dirprwy Glerc, Pwyllgor Datblygu Economaidd |

**Sylwadau agoriadol**
1. Croesawodd y Cyng D J Potter, Cadeirydd y Cyngor, Aelodau'r Cynulliad i swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn Nhredomen. Diolchodd Carwyn Jones y Cyng Potter am gael defnyddio cyfleusterau'r Cyngor a dywedodd pa mor falch ydoedd bod y ddau Bwyllgor yn cwrdd yng Nghymoedd De Cymru fel rhan o'r ymarfer ymgynghorol pwysig i'r arian Ewropeaidd newydd. Eglurodd y byddai'n cadeirio hanner cyntaf y cyfarfod ac yna'n trosglwyddo'r awenau i Val Feld fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Peter Black, Rosemary Butler, Jane Davidson, David Davies, Geraint Davies, Jocelyn Davies, Ann Jones, Helen Mary Jones a Rhodri Morgan.

**Rhan 1: Cadeiriwyd gan Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru Cyflwyniad gan Ysgrifenyddiaeth y Tasglu**
3. Eglurodd Hugh Rawlings yn gryno fod y Tasglu wedi paratoi drafftiau o Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a dogfennau rhaglen cysylltiedig a fyddai yn y pen draw yn cael eu cynnig gerbron y Comisiwn Ewropeaidd. Roeddent newydd orffen eu cyfnod ymgynghorol eu hunain i'r drafftiau a byddant yn cwblhau'r dogfennau yn eu cyfarfod nesaf cyn eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol. Ym mis Hydref byddai'r Tasglu yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Roedd yn rhaid i'r dogfennau, fel y'u haddaswyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, gael eu cynnig gerbron y Comisiwn Ewropeaidd erbyn 3 Tachwedd. Byddai cyfnod o drafodaethau yn dilyn hyn hyd nes i'r Comisiwn Ewropeaidd gytuno ar y dogfennau terfynol erbyn 31 Mawrth 2000.

4. Byddai pwyllgorau monitro yn cynllunio trefniadau manwl fel y gallai'r rhaglenni redeg yn effeithlon o'r cychwyn. Roedd gan y Comisiwn ddiddordeb arbennig i weld mesurau a fyddai'n creu swyddi; ar hyn o bryd roedd Cymru yn wynebu'r broblem o nifer rhy fach o bobl mewn cyflogaeth a hwythau'n ennill cyflogau cymharol isel. Roedd y papurau ymgynghorol a ryddhawyd gan y Tasglu yn amlinellu pum maes gweithgaredd. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn derbyn adborth ar sut y dylid dyrannu'r adnoddau rhyngddynt.

5. Yna gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i gwestiynu aelodau o'r Tasglu a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Bod gan y Cynulliad gyfle gyda'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a iechyd gwael sy'n arwain at ddiffyg gweithgaredd economaidd. Dylai'r Strategaeth bwysleisio gwella iechyd pobl Cymru fel y gall mwy fod yn rhan o'r gweithlu. Byddai gan y Strategaeth fwy o effaith hir dymor petai'n gallu cysylltu â'r

strategaeth ‘Gwell Iechyd Gwell Cymru’.

- Bod yr Undeb Ewropeaidd am weld yr arian sydd ar gael i Gymru yn cael ei ddosbarthu’n gyfartal dros saith mlynedd y rhaglen. Dylai strategaethau gweithredu fod yn eu lle er mwyn i gynlluniau a allai weithredu o 1 Ebrill 2000 allu dechrau ar unwaith. Dylai strategaethau gweithredu fod ar gael ar lefel genedlaethol a lleol fel na chaiff y broses o weithredu’r projectau gael ei hoedi. Mae’n rhaid i’r Tasglu a’r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y strwythurau cywir yn eu lle fel y gellir ystyried ceisiadau o 1 Ebrill.
- Bod pryder ynglŷn â lefel cyfranogiad y sector preifat ym mhroses ymgynghorol y Tasglu. Nid oedd cynrychiolaeth uchel o’r sector preifat ychwaith yn nifer y siaradwyr yn ddiweddarach yn y cyfarfod nac yn y Tasglu ei hun. Awgrymwyd y dylid diffinio swyddogaeth y sector preifat yn gliriach yn y dogfennau ymgynghorol. Fodd bynnag, nodwyd fod cynrychiolwyr sector preifat yn y Tasglu a fyddai’n parhau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r gymuned fusnes ac i sianelu ymatebion yn ôl o’r sector preifat. Roedd hi’n ddymunol i’r sector preifat fod yn rhan gan y dylid rhedeg y rhaglenni ar sail partneriaeth.
- Mai masnachwyr unigol oedd cyfran uchel o fusnesau yng Nghymru. Awgrymwyd y dylid datblygu’r economi yn y fath ffordd fel y byddai’n caniatáu i’r sector busnesau bach lewyrchu.
- Bod pryder ynglŷn â’r diffyg tablau ariannol mewn dogfennau ymgynghorol a fyddai’n galluogi noddwyr i baratoi projectau arfaethedig ar gyfer yr arian a gynigwyd.
- Y cafwyd trafodaeth ynglŷn ag anghenion cymharol ardaloedd dinesig a gwledig a’r angen i osgoi gwrthdaro rhyngddynt tra’n dosbarthu arian Amcan 1. Roedd aelodau sy’n cynrychioli etholaethau’r Cymoedd yn teimlo’n gryf fod gan eu hardaloedd anghenion penodol nad oedd wedi cael eu nodi yn y dogfennau ymgynghorol. Dywedodd y Tasglu y byddai angen diwygio’r dogfennau i gael eu cyflwyno i'r Comisiwn ynglŷn â Gorllewin Cymru a’r Cymoedd er mwyn sicrhau cydbwysedd mwy derbyniol rhwng ardaloedd dinesig a gwledig, er y nodwyd bod yn rhaid iddynt amlinellu problemau cyffredin. Nodwyd mai un o’r gofynion hefyd oedd cyflwyno Cynllun Datblygu Gwledig i’r Undeb Ewropeaidd.
- Bod pryder ynglŷn â nifer y bobl ifanc sy’n gadael y Cymoedd. Awgrymwyd y dylid cael mwy o gymorth ar gyfer pobl fusnes fel ffordd o sicrhau bod pobl yn aros i fyw a gweithio yn y Cymoedd.
- Bod gan y Cynulliad ddyletswydd i weithredu egwyddor cynaladwyedd yn ymwneud â datblygu economaidd. Mynegwyd pryder ynglŷn â diffyg fframwaith strategol ofodol yn y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol a dogfennau rhaglen cysylltiedig. Awgrymwyd y dylid asesu’r projectau o safbwynt datblygu cynaladwy.
- Y mynegwyd pryder ynglŷn â chyhoeddi’r dogfennau ymgynghorol yn hwyr. Atebodd y Tasglu fod hyn o ganlyniad i’r ymagwedd bartneriaeth yr oeddynt wedi ymgymryd â hi. Cynhyrchwyd y dogfennau ar y cyd â nifer o gyrff ac o ganlyniad i gymhlethdod eu tasg bod hyn wedi cymryd mwy o amser na phe bai’r ddogfen wedi cael ei chynhyrchu gan dîm bach.

6. Diolchodd y Cadeirydd y Tasglu am eu cyflwyniad a gwahoddodd hwy i ystyried y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau. Dywedodd hefyd y dylid defnyddio’r incwm sydd ar gael yn hytrach na CDC fel ffordd well o benderfynu ar safonau byw.

**Rhan 2: Cadeiriwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd**

7. Croesawodd Val Feld bawb i ail hanner y cyfarfod. Eglurodd ei bod yn bwysig sicrhau bod

gwahaniaethau rhanbarthol yn cael eu hystyried fel y gallai'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol gyrraedd y rhannau o Gymru a esgeulusir fwyaf ac adeiladu economi iach ar gyfer y dyfodol. Dywedodd mai swyddogaeth y Pwyllgor Datblygu Economaidd oedd astudio cynigion y Tasglu yn fanwl o safbwynt croestoriad. Dros yr wythnos i ddod dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn edrych ar dargedau'r Tasglu, y proffil gwario ar gyfer saith mlynedd y rhaglen, swyddogaeth y sector preifat a sut gellid gweithredu'r cynigion. Y materion o bwys arbennig i'r Pwyllgor oedd p'un a oedd y strategaethau yn rhai cydlynol; a fyddent yn mynd i'r afael â phroblemau rhanbarthol; cadw'r ddysgl yn wastad rhwng buddsoddi mewn seilwaith, diwydiant ac adnoddau dynol; sut dylai'r sector preifat gymryd rhan; pa wybodaeth ddylid ei lledaenu a pha help ddylid ei roi i sefydliadau llai/rhanbarthol.

8. Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd y siaradwyr i wneud eu cyflwyniadau a derbyn cwestiynau. Crynhoir y cyflwyniadau a'r prif bwyntiau a godwyd isod.

**Chris Burns, Pennaeth Datblygu Economaidd, Cyngor Bwrdeistref Caerffili**

9. Croesawodd Mr Burns y cynnig i gyflwyno pecynnau projectau sy'n creu strategaeth leol, yn hytrach na phrojectau unigol a oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Roedd Partneriaeth Amcan 1 Caerffili, a oedd yn ymwneud â mwy nag 20 sefydliad, yn ategu'r dull hwn o weinyddu'r rhaglen.

10. Roedd yn bryderus y gallai strategaethau lleol gael eu hoedi tra roedd y broses o gytuno ar strategaethau cenedlaethol yn parhau. Dylid datganoli'r cyfrifoldeb i'r lefelau addas.

**Andy Fretter, Cyfarwyddwr Datblygu, Cyngor Sir Tor-faen**

11. Pwysleisiodd Mr Fretter y pwyntiau canlynol o'i bapur. Credai'r Cyngor mai'r prif amcan ddylai fod cynyddu'r CDC y pen i'r eithaf. Dylai'r twf gael ei ddosbarthu'n deg rhwng y rhanbarthau fel na chyfyngwyd y twf i'r stribyn ar hyd yr M4. Dywedodd Mr Fretter mai dim ond 2 y cant o gyfanswm yr arian sydd ar gael i gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol oedd arian Amcan 1, ac na fyddai o bosibl yn ddigon i gwrdd â'r holl dargedau. Dylai cymorth gweithredol fod ar gael, gan fod hwn yn Iwerddon yn bwysicach nac arian Amcan 1. Yn y pen draw ni ddylai'r pwyslais cynyddol ar fusnes brodorol fod yn niweidiol i fuddsoddi mewnol oherwydd bod gan hwn fanteision cydnabyddedig ar gyfer yr economi ranbarthol.

12. Fel ymateb i gwestiynau Aelodau, nodwyd y byddai arian Amcan 1, ar y cyd ag arian cyfatebol, yn cynrychioli tua 4 i 5 y cant o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol. Dylid datganoli rhaglenni i'r lefel leol lle bynnag y bo'n bosibl. Nid y bwriad oedd y dylai strategaethau lleol aros i strategaethau cenedlaethol fod yn eu lle cyn eu gweithredu. Cafwyd trafodaeth hefyd ar swyddogaeth twristiaeth. Cytunodd y siaradwyr ar ran llywodraeth leol nad oedd yn creu cyfoeth ar draws canran fawr o'r boblogaeth ond teimlasant ei fod yn bwysig oherwydd ei allu i godi proffil ardal.

**Jane Peirson Jones, Cyfarwyddwraig, y Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru**

13. Teimlodd Ms Peirson Jones na fu digon o ymgynghori â'r sector amgueddfaol a phwysleisiodd sut y gellid defnyddio sector amgueddfaol Cymru i gwrdd â pholisïau economaidd a chymdeithasol. Roedd amgueddfeydd yn gwasanaethu fel adnodd diwylliannol a threftadol a allai ddod â manteision economaidd i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fel canolfannau adnoddau

cymunedol, gallai amgueddfeydd arwain at synnwyr o roi grym i gymunedau a datblygu sgiliau. Gallai amgueddfeydd ddarparu gwybodaeth bellach am y ddarpariaeth ddiwylliannol mewn ardal fel y gall pobl wneud penderfyniadau cytbwys gan arwain at fwy o foddhad ac yn y pen draw at fwy o wariant mewn ardal.

**Kerry Thomas, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC)**
14. Amlinellodd Ms Thomas gyfraniad Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru i flaenoriaethau allweddol y dogfennau ymgynghorol. O fewn pedair blynedd gyntaf y rhaglen, byddai AOCC yn gallu cyfrannu dros £20 miliwn o arian cyfatebol drwy gyfrwng partneriaethau masnachol, incwm loteri a'u grantiau eu hunain. Creodd amgueddfeydd rywfaint o incwm drwy ddarparu cyngor arbenigol ar gyfer diwydiannau. Gellid defnyddio'r rhain hefyd i gynorthwyo datblygu economaidd cynaladwy. Cynorthwyodd AOCC adfywio cymunedol a chyfrannu at hyn drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru; er enghraifft, ailddatblygu Amgueddfa Lechi Llanberis a dderbyniodd grant o £1.6 miliwn. Roedd yr AOCC yn gredwr cryf mewn dysgu gydol oes ac wedi cynnal rhaglenni peilot 'outreach' er mwyn mynd â chasgliadau a staff amgueddfeydd i leoliadau newydd a chyrraedd pobl nad oedd ganddynt y cyfle i ymweld ag amgueddfeydd.

**Ian Kelsall, Cyfarwyddwr Rheoli, Busnes i Ferthyr**
15. Eglurodd Mr Kelsall broject Busnes i Ferthyr ar gyfer cael prifysgol ym Merthyr Tudful. Y bwriad oedd gwella bywyd y bobl leol drwy alluogi pobl ifanc i fynd ymlaen i addysg uwch yn y Cymoedd. Byddai prifysgol yn creu cyswllt rhwng sectorau addysg a busnes, gan roi ysgogaeth i ardal Blaenau'r Cymoedd. Y bwriad oedd i'r brifysgol arbenigo mewn technoleg gwybodaeth a datblygu cysylltiadau â chwmnïau lleol. Roedd y brifysgol bellach yn rhan o gynllun strategol CPC Abertawe a chynhelir astudiaeth o ddilysrwydd cyn bo hir.

16. Teimlodd Mr Kelsall mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth Amcan 1 fyddai gan lawer o gwmnïau'r sector preifat. Dylid cael proses i addysgu'r sector preifat fel nad oedd yn colli manteision statws Amcan 1.

**Wayne Feldon, Prif Weithredwr, Cymdeithas Gwasanaeth Gyrfaoedd Cymru**
17. Cydnabu Mr Feldon, ar ran CGGC, bwysigrwydd yr Agenda Dysgu Gydol Oes, Grid Cenedlaethol Dysgu, y Brifysgol Ddiwydiant a'r Coleg Digidol. Gellid defnyddio'r rhain i fynd i'r afael â diweithdra ac eithrio cymdeithasol. Canolbwyntiodd ar y farn fod cyngor gyrfaoedd yn rhan annatod o ddatblygu adnoddau dynol, ac nid rhywbeth y gellir ei ddewis yn ychwanegol. Dylai'r dogfennau ymgynghorol bwysleisio pwysigrwydd mynediad i gyngor a gwasanaethau arweiniol a dylai'r arian fod ar gael i wneud mynediad lawn yn realiti.

**Theresa Holdsworth, Pennaeth Materion Ewropeaidd a Buddsoddi Mewnol, TEC De Ddwyrain Cymru**
18. Dywedodd Ms Holdsworth na fyddai'r targed o 90 y cant o gyfartaledd CDC y DU erbyn 2010 yn cael ei gyflawni gan greu swyddi yn unig. Dylid cynyddu cynhyrchadwyedd drwy godi gwerth swyddi newydd a chreu swyddi gwerth ychwanegol newydd. Dylid croesawu'r cysyniad o ddysgu gydol oes. Er mwyn cael y gorau bosibl allan o fanteision derbyn mwy o arian, dylid cael ymagwedd strategol tuag at reoli'r cronfeydd yn hytrach na chanolbwyntio ar un gronfa yn unig.

19. Siaradodd Ms Holdsworth o blaid strategaeth ar gyfer gwariant ar adnoddau dynol y gellir ei thargedu tuag at Amcan 1 ac Amcan 2. Byddai hyn yn annog busnesau bach i gynyddu eu cyfranogiad i'r broses o fagu sgiliau'r gweithlu presennol a gweithluoedd y dyfodol. Siaradodd am 'ffordd o greu cynnydd' y gellir ei chynnig i unigolion drwy gyfrwng mentrau cymunedol. Ni fyddai hyn o angenrheidrwydd yn golygu cyfleoedd am swyddi ond gallai olygu gwaith gwirfoddol neu addysg bellach a allai yn y pen draw arwain at gyflogaeth. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar wneud pobl ifanc yn fwy ymwybodol o'u dewisiadau addysgol. Dylent fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yn y farchnad lafur a sut gallant ddefnyddio cymwysterau galwedigaethol ac addysgol er eu lles eu hunain. Tanbrisiwyd pwysigrwydd addysgu sgiliau bywyd mewn ysgolion. Gallai hyn annog disgyblaethau yn ymwneud â gwaith sy'n bwysig i gyflogwyr ac a allai fod o fudd i bobl ifanc wrth iddynt ymuno â'r farchnad lafur.

**Yr Athro Adrian Webb, Prifysgol Morgannwg**

20. Credodd Prifysgol Morgannwg fod ganddi swyddogaeth ganolog i'w chwarae yn y broses o gyflwyno sawl elfen o'r Strategaeth a phwysleisiodd y pwyntiau canlynol wrth eu cyflwyno. Dylid integreiddio cysylltiadau rhwng ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch er mwyn sicrhau proses ddysgu gydol oes. Dylid buddsoddi yn y gweithlu ac mewn datblygu sgiliau ar bob lefel. Dylid cael datganiad o strategaeth glir yn cydnabod cyfraniad posibl Addysg Bellach ac Addysg Uwch a dylai dim llai na 40 y cant o'r adnoddau sydd ar gael fod yn ymrwymedig i raglenni datblygu adnoddau dynol. Dylid diffinio swyddogaeth y sector preifat yn gliriach. Dylid annog mentergarwch ac ychwanegodd fod angen cymorth parhaus i fusnesau ar ôl iddynt esblygu o'u cyfnod sefydlu cychwynnol.

**David Brooksbank, Prifysgol Morgannwg**

21. Pwysleisiodd Mr Brooksbank swyddogaeth busnesau Cymreig brodorol ym mhroses adfywio economaidd Cymru. Er mwyn cynyddu'r CDC awgrymodd y dylai rhagor o gymorth Ewropeaidd fynd yn uniongyrchol i gwmnïau bach. Er y dylai arian fynd i'r sector cyhoeddus ar gyfer gwella seilwaith a helpu cymunedau bach, dylid targedu'r sector SME er mwyn creu cyfoeth a chyflogaeth. Roedd gwell cymorth busnes hefyd yn hanfodol ac un o'r cynigion oedd datblygu corff cryf fel Enterprise Ireland a fyddai'n gyfrifol am ddatblygu rhaglenni cymorth i fusnesau ar gyfer busnesau brodorol yng Nghymru.

**Alan Twelvetrees, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Sefydliad Datblygu Cymunedol**

22. Canolbwyntiodd Mr Twelvetrees ar yr angen am strategaeth datblygu cymunedol ar gyfer Cymru gyfan i fod yn ganolog i'r strategaeth ddatblygu economaidd. Gwnaeth y pwyntiau canlynol yn ei gyflwyniad:

- Bod yr economi fyd-eang yn creu enillwyr a chollwyr. Roedd y collwyr yn tueddu i fyw yn y cymunedau tlawd.
- Mewn ardaloedd tlawd y gall 70 y cant o'r boblogaeth fod y tu allan i'r farchnad lafur.
- Hwyrach na fyddai atebion economaidd o fudd i'r bobl hynny yn arbennig os mai swyddi tâl isel, dros dro oedd yr atebion hynny.
- Ni sylweddolwyd yn aml pa mor unig y teimlai pobl wedi'u heithrio.
- Bod angen partneriaethau cymunedol cyhoeddus parhaol ar ardaloedd difreintiedig yn cynnwys staff datblygu cymunedau a hyrwyddwr partneriaeth. Roedd y gwaith hwn yn waith

medrus iawn.
- Roedd angen strategaethau datblygu cymunedol ar awdurdodau lleol ac roedd angen strategaeth datblygu cymunedau mewn ardaloedd difreintiedig ar y Cynulliad.

**Chris Martin, Rhwydwaith Arena**
23. Cwmni elusennol oedd Rhwydwaith Arena a oedd yn codi ymwybyddiaeth amgylcheddol o fewn busnesau yng Nghymru ac yn eu cynorthwyo i symud tuag at arfer gorau amgylcheddol. Pwysleisiodd Mr Martin fod amrywiaeth o fanteision i'w cael o ddatblygu perthnasau gwaith agos gydag a rhwng busnesau. Dylid cael partneriaeth well rhwng y sector cyhoeddus a phreifat. Roedd y gallu i gael mynediad i arian ar lefel leol a rhanbarthol o ffynonellau Ewropeaidd a'r DU yn hollbwysig. Roedd angen ymagwedd ddyfeisgar i dynnu sylw busnesau bach, sydd â chyfyngiadau ariannol, amser a staffio**.**

**John Lambert, Asiantaeth yr Amgylchedd**
24. Eglurodd Mr Lambert fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn pryderu na chafodd datblygu cynaladwy ei ddiffinio'n glir fel un o amcanion y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol. Roedd yn tynnu sylw at ddiffyg cyfeiriadaeth at ddatblygu neu warchod amgylcheddol yn y ddogfen raglen ddrafft ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Dadleuodd Mr Lambert y dylid gweithredu rhaglenni a'u monitro ar y lefel isaf**.**

**Dr Tim Stowe, RSPB**
25. Tynnodd Mr Stowe sylw at y posibilrwydd amgylcheddol a ddarperir gan arian Amcan 1. Roedd angen fframwaith strategol wedi'i chynllunio, i gyflwyno'r rhaglen i Gymru gyfan. Cwestiynodd y targedau a nodwyd yn y rhaglen. Dylid rhoi mwy o feddwl i gynyddu'r seilwaith drafnidiaeth; roedd astudiaethau diweddar wedi dangos nad oedd y cysylltiad rhwng adeiladu ffyrdd a datblygu economaidd wedi'i brofi.

**Cwestiynau gan y cyhoedd**
26. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau'r cyhoedd ofyn cwestiynau yn y cyfarfod. Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol**:**

- Methodd y dogfennau ag ystyried ariannu o safbwynt pobl ifanc. Er enghraifft roedd y Gymdeithas Hosteli Ieuenctid yn annog gwerthfawrogiad o gefn gwlad a oedd yn ei dro yn annog pobl ifanc i aros yng Nghymru.
- Roedd angen seilwaith gludiant i gwrdd ag anghenion pobl ifanc.
- Dylid edrych ar sefydliadau a oedd yn ymwneud â phrojectau fel partneriaid.
- Roedd yn hanfodol fod cychwyn cyflym iawn i'r rhaglen.
- Cefnogodd colegau Addysg Bellach y strategaeth adnoddau dynol a amlinellir yn y dogfennau.
- Dylai fod mwy o help ar gyfer busnesau brodorol.
- Dylid staffio'r Banc Datblygu gan bobl o ardaloedd Amcan 1 sy'n deall anghenion y bobl yn yr ardaloedd hynny.
- Roedd gwersi i'w dysgu gan Japan am adfywio economïau.
- Dylid cefnogi diwydiant ffilm Cymru.

27. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i gael strwythur a oedd yn sensitif i anghenion lleol ac a allai gyflwyno arian i'r llefydd yr oedd ei angen arnynt. Diolchodd gyfranwyr a chroesawodd gyflwyniadau ysgrifenedig ychwanegol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Medi 1999**